



LLINOS OWEN

Hen Straeon, Merched Heddiw

Archwiliai'r artist Llinos Owen y ffigwr benywaidd drwy gyfres o bortreadau cywrain wedi eu creu drwy waith argraffu a brodwaith. Caiff hunaniaeth a diwylliant cyfoes Cymreig ei gweu gyda llên gwerin a chwedloniaeth er mwyn creu cysylltiadau rhwng hen straeon a merched heddiw.

Mae'r llafur ynghlwm â phrosesau argraffu a brodweithio yn bwysig i'r artist, wrth iddi gydnabod gwaith traddodiadol llafurus merched yn y cartref a'r gweithle, a bydd hi'n dewis defnyddiau ysgafn a bregus i adlewyrchu natur ein atgofion a'n cysylltiadau efo'r gorffennol. Ond mewn gwrthgyferbyniad, mae hi'n gosod delweddau cyfoes, ifanc eu naws, a lliwiau bywiog sy'n dathlu'r profiadau sy'n ein siapio.

Yn wreiddiol o Gaernarfon, mae Llinos yn byw a gweithio yn Llundain ar hyn o bryd ac yng nghanol cwrs gradd mewn Celf Gain yn University of the Arts London.

Mae'r arddangosfa yn cydfynd â Gŵyl Neithiwr.

Old Stories, Today's Women

The artist Llinos Owen explores the female figure through a series of intricate portraits made through printmaking and embroidery. Contemporary Welsh culture and identity are interwoven with folklore and mythology to create connections between old stories and women today.

The labour involved in printmaking and embroidery is important for the artist, as she acknowledges the traditional roles of women in the home and workplace. She chooses light and delicate materials to reflect the fragile nature of our memories and connections with the past. In contrast, she places contemporary images that are youthful in spirit, with bright colours that celebrate those experiences that shape us.

Originally from Caernarfon, Llinos currently lives and works in London and studies Fine Art at the University of Arts London.

The exhibition coincides with Gŵyl Neithiwr.